Y Parchedig Ieuan Davies
1989-98



Daeth y Parchedig Ieuan Davies atom yn 1989 yn weinidog â phrofiad eang ganddo o gynulleidfaoedd o bob rhan o Gymru. Bu'n bugeilio mewn eglwysi ym Maesteg ym Morgannwg, Llandysilio a Llawhaden ym Mhenfro, Caernarfon yng Ngwynedd, Aberteifi yng Ngheredigion, ac yn Llundain cyn derbyn yr alwad i Minny Street yn 1989. Daeth felly â phrofiad o gynulleidfaoedd gwledig, trefol a dinesig.

Nodweddid Ieuan gan ei egni a'i ddiwydrwydd pybyr; roedd yn bregethwr taer a difrifol a ddefnyddiai ystum ei gorff a'i ddwylo i gyfleu ei neges yn rymus. Gwyddai gynnwys ei bregethau yn llawn ac ni welech byth mohono yn troi at ei nodiadau. Cyflwynodd nifer o gyfresi o bregethau gan gynnwys cyfres ar y Creu ac ar Lyfr Job. Ymlafniodd yn galed yn ei gyfnod gyda ni gan drefnu cyfresi o oedfaon nos Sul gan ieuenctid y brifddinas.

Bugeiliai'n ofalus a diwyd gan ymweld â chynifer ag wyth aelod mewn diwrnod ambell dro. Ond yn ogystal â llunio pregethau sylweddol a bugeilio dyfal yr oedd ef, Eunice ei briod a'r plant, Nia a Lois yn chwarae rhan lawn ym mywyd yr Eglwys. Mynychai'r ddau y Gymdeithas yn ddi-feth ac erys cof da ym Minny Street am Ieuan yn anfarwoli ei hun fel Sam Styllen, y trefnwr angladdau, mewn drama ddoniol a berfformiwyd gan y Gymdeithas. Nid anghofir ychwaith ei ddawn i adnabod a dynwared cân aderyn.

Yn 1992, dan ei anogaeth a'i lafur, aeth plant yr Ysgol Sul ati i baratoi cywaith ar y thema '*Gwaith Eglwys*' ar gyfer cystadleuaeth dan nawdd Undeb yr Annibynwyr ac enillodd Ysgol Sul Minny Street, Gwpan Denman am y gwaith.

Yn 1998, ymadawodd Ieuan â Minny Street a derbyn galwad i'r Tabernacl, Treforys. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn mae wedi bod wrthi'n ddygn yn ysgrifennu a chyhoeddi, gan gynnwys ei gyfrol hunangofiannol swmpus *Trwy lygaid Tymblwr - a Gweinidog*! (â'i lais ar gryno ddisg) a gyhoeddwyd yn 2007.

(Iwan Jones *allan o* ***Llewyrch Ddoe, Llusern Yfory***. 2009. *Gol:* J. Gilbert Evans, Glyn E. Jones, Iolo M.Ll. Walters; cyhoeddwyd gan Eglwys Annibynnol Minny Street Caerdydd)